EICH ARWEINIAD I GYTUNIAD LISBON

COMISIWN EWROPEAIDD

CYNNWYS

CYFLWYNIAD 1

UNDEB AR GYFER YR 21AIN GANRIF 2

PWYNTIAU ALLWEDDOL CYTUNIAD LISBON 4

CAEL GWYBOD MWY 10

Y llwybr i Lisbon 11

Mwy am y newidiadau sefydliadol 12

Rhai termau technegol 15

Gallwch weld y llyfryn hwn ac esboniadau clir, cryno eraill am yr Undeb Ewropeaidd ar lein ar ec.europa.eu/publications

Y Comisiwn Ewropeaidd
Y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyfathrebu
Cyhoeddiadau
B-1049 Brwsel

Cwblhawyd y llawysgrif ym mis Gorffennaf 2009

Hawlfraint: y clawr Group © Getty Images – Ysgwyd llaw © Corbis, t.1 iStockphoto, t.2 iStockphoto (Joerg Reimann), t.4 iStockphoto, t.6 iStockphoto (Emrah Turudu), t.7 Y Comisiwn Ewropeaidd/ECHO, t.8 Y Comisiwn Ewropeaidd, t.10 Reporters, t.12 Senedd Ewrop, t.15 iStockphoto (Mikael Damkier).

Lwcsembwrg: Swyddfa Cyhoeddiadau Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, 2010
16 tud. — 21 × 29.7 cm

ISBN 978-92-79-14252-9
doi:10.2775/46682

© Y Cymunedau Ewropeaidd, 2010
Awdurdodir atgynhyrchu. I ddefnyddio neu atgynhyrchu ffotograffau unigol mewn unrhyw ffordd, rhaid gofyn am ganiatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint yn uniongyrchol.

Printed in Belgium

ARGRAFFWYD AR BAPUR GWYN DI-GLORIN

CYFLWYNIAD

Ar ôl degawdau o ryfel a gostiodd filiynau o fywydau, nododd sefydlu'r UE ddechrau cyfnod newydd pan fo gwledydd Ewrop yn datrys eu problemau trwy siarad, nid ymladd.

Heddiw, mae aelodau o'r UE yn mwynhau toreth o fanteision; marchnad rydd gydag arian sy'n gwneud masnach yn haws ac yn fwy effeithlon, creu miliynau o swyddi, gwell hawliau i weithwyr, symudiad dilyffethair pobl ac amgylchedd glanach.

Fodd bynnag, cafodd y rheolau presennol eu cynllunio ar gyfer UE oedd yn llawer llai, ac UE nad oedd yn gorfod wynebu heriau byd-eang megis y newid yn yr hinsawdd, dirwasgiad byd-eang na throseddu trawsffiniol rhyngwladol. Mae gan yr UE y potensial, a'r ymroddiad, i fynd i'r afael â'r problemau hyn, ond ni all wneud hynny ond trwy wella'r ffordd y mae'n gweithio.

Dyma yw diben Cytuniad Lisbon. Mae'n gwneud yr UE yn fwy democrataidd, effeithlon a thryloyw. Mae'n rhoi i ddinasyddion a seneddau fwy o gyfraniad i'r hyn sy'n digwydd ar lefel Ewropeaidd, ac yn rhoi i Ewrop lais cliriach a chryfach yn y byd, ac ar yr un pryd yn amddiffyn buddion cenedlaethol.

Mae'r Cytuniad yn darparu ar gyfer Menter Dinasyddion newydd. Trwy hon gallwch, gyda miliwn o lofnodion, ddeisebu'r Comisiwn Ewropeaidd i gyflwyno cynigion polisi newydd.

Rhoddir rôl fwy i senedd genedlaethol pob Aelod-wladwriaeth o ran archwilio cyfreithiau'r UE cyn iddynt gael eu pasio er mwyn sicrhau nad yw'r UE yn mynd y tu hwnt i'w awdurdod ar faterion a ddylai gael sylw ar lefel genedlaethol neu leol.

Bydd grymoedd Senedd Ewrop yn cael eu cynyddu, gan roi i'r Aelodau o Senedd Ewrop yr ydych chi'n eu hethol yn uniongyrchol fwy o lais ar amrywiaeth fwy o faterion.

Yn groes i'r Cytuniad presennol (Cytuniad Nice), bydd y Comisiwn yn dal i gynnwys un Comisiynydd o bob Aelod-wladwriaeth.

Mae'r daflen hon yn esbonio beth mae Cytuniad Lisbon yn ei olygu i chi fel dinesydd.

UNDEB AR GYFER YR 21AIN GANRIF

Cafodd Cytuniad Lisbon ei lofnodi gan 27 Aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar 13 Rhagfyr 2007.

Er mwyn i'r Cytuniad ddod i rym, rhaid i holl wledydd yr UE ei gymeradwyo yn unol â'u gweithdrefnau cenedlaethol.

Pam mae angen cytuniad newydd?

Mae'r UE wedi newid. Erbyn hyn mae pedair gwaith mwy o Aelod-wladwriaethau na phan ddechreuodd. Yn y pum mlynedd diwethaf yn unig, mae'r nifer bron wedi dyblu.

Hefyd mae'r byd yn newid yn gyflym. Mae Ewrop yn wynebu heriau anferth yn yr 21ain ganrif, gan gynnwys yr argyfwng economaidd, y newid yn yr hinsawdd, datblygu cynaliadwy, diogelu ffynonellau ynni a brwydro yn erbyn troseddu trawsffiniol rhyngwladol.

Roedd yr Aelod-wladwriaethau a luniodd Gytuniad Lisbon gyda'i gilydd yn cydnabod nad oedd y cytuniadau oedd yn bodoli eisoes yn rhoi i'r Undeb Ewropeaidd yr offer y mae eu hangen i wynebu'r heriau hyn ac ymdrin â'r newidiadau hyn.

- Mae Cytuniad Lisbon yn diwygio a diweddaru cytuniadau cynharach yr UE.
- Mae'n cymryd i ystyriaeth y ffaith bod yr UE wedi tyfu o'r chwe Aelod-wladwriaeth gychwynnol i'r 27 o aelodau sydd ganddo yn awr a'r llu o ddatblygiadau yn y 50 mlynedd diwethaf.
- Bydd y Cytuniad, os caiff ei gymeradwyo ym mhob un o 27 o wledydd yr UE, yn gwella'r dulliau gweithio er mwyn sicrhau bod yr Undeb yn cyflawni ei fusnes mewn modd mor effeithlon ac effeithiol ag sy'n bosibl yn yr 21ain ganrif.
- Mae'r Cytuniad yn helpu'r UE i wasanaethu'ch buddion chi'n well ac mae'n rhoi llais uniongyrchol i chi mewn materion Ewropeaidd trwy'r Fenter Dinasyddion newydd.
- Mae'n diogelu'ch hawliau gyda'r Siarter Hawliau Sylfaenol.
- Mae'n cryfhau rôl Senedd Ewrop ac yn rhoi pwerau newydd i seneddau cenedlaethol.
- Mae'n gwneud y broses benderfynu'n fwy effeithlon ar lefel Ewrop.
- Mae'n helpu'r Undeb Ewropeaidd i siarad ag un llais yn y byd.

- Mae'n cyflwyno mesurau newydd i fynd i'r afael â materion o bwys mawr sy'n effeithio ar ansawdd ein bywydau, megis y newid yn yr hinsawdd, troseddu trawsffiniol ac ynni.
- Ar yr un pryd, mae'n diogelu hawliau pob Aelod-wladwriaeth, yn enwedig mewn meysydd sensitif megis trethiant ac amddiffyn.

Nodau a gwerthoedd yr UE

Mae Cytuniad Lisbon yn nodi amcanion a gwerthoedd yr Undeb Ewropeaidd yn glir, sef heddwch, democratiaeth, parch at hawliau dynol, cyfiawnder, cydraddoldeb, rheolaeth y gyfraith a chynaliadwyedd.

Mae'r Cytuniad yn addo y bydd yr Undeb Ewropeaidd yn:

- Cynnig i bobl ardal gyda rhyddid, diogelwch a chyfiawnder heb ffiniau mewnol

- Gweithio i ddatblygu Ewrop yn gynaliadwy ar sail twf economaidd cytbwys a sefydlogrwydd prisiau, economi marchnad cymdeithasol cystadleuol iawn, gan anelu at gyflogaeth lawn a chynnydd cymdeithasol, gyda lefel uchel o amddiffyniad i'r amgylchedd;

- Brwydro yn erbyn allgau cymdeithasol a chamwahaniaethu a hyrwyddo cyfiawnder ac amddiffyniad cymdeithasol;

- Hyrwyddo cydlyniant economaidd, cymdeithasol a thiriogaethol, a chydlyniad ymysg yr Aelod-wladwriaethau;

- Dal ati i ymrwymo i undeb economaidd ac ariannol gyda'r Ewro'n arian iddo;

- Cynnal a hyrwyddo gwerthoedd yr Undeb Ewropeaidd yn y byd ehangach a chyfrannu at heddwch, diogelwch, datblygu'r Ddaear yn gynaliadwy, cydlyniad a pharch ymysg pobloedd, masnach rydd a theg, a dileu tlodi;

- Cyfrannu at warchod hawliau dynol, yn arbennig hawliau'r plentyn, yn ogystal ag ufuddhau'n gaeth i gyfraith ryngwladol a'i datblygu, gan gynnwys parch at egwyddorion Siarter y Cenhedloedd Unedig.

Dyma'r prif nodau. Mae Cytuniad Lisbon wedi'i gynllunio i roi i'r UE yr offer i'w cyrraedd.

PWYNTIAU ALLWEDDOL CYTUNIAD LISBON

Bod yn fwy democrataidd ac yn fwy agored

Mae'r Cytuniad yn rhoi llais cryfach i chi yn y broses benderfynu.

Mae **Menter Dinasyddion** newydd yn golygu y gall miliwn o bobl – o boblogaeth yr UE, sef 500 miliwn – o nifer o Aelod-wladwriaethau ddeisebu'r Comisiwn Ewropeaidd i gyflwyno cynigion polisi newydd.

Mae hyn yn rhoi llais uniongyrchol i chi ym mhroses ddeddfu'r UE am y tro cyntaf.

Er mwyn gwella'r wybodaeth am y ffordd y mae'r UE yn dod i benderfyniadau, bellach bydd yn rhaid i Gyngor y Gweinidogion gyfarfod yn gyhoeddus wrth ystyried cyfreithiau drafft a phleidleisio arnynt.

Mae'r Cytuniad yn cynyddu nifer y meysydd lle mae **Senedd Ewrop** yn rhannu'r broses benderfynu gyda **Chyngor y Gweinidogion.** Mae hynny'n golygu y bydd gan yr Aelodau o Senedd Ewrop yr ydych chi'n eu hethol yn uniongyrchol lawer mwy o lais yn y broses ddeddfu ac yng Nghyllideb yr UE.

Yn y gwahanol wledydd, bydd gan y **seneddau cenedlaethol** fwy o gyfleoedd i wneud cyfraniad uniongyrchol i broses benderfynu'r UE.

Mae system rhybuddio brys newydd yn rhoi hawl i seneddau cenedlaethol gyflwyno sylwadau ar gyfreithiau drafft, ac i wirio nad yw'r UE yn mynd y tu hwnt i'w awdurdod trwy ymyrryd mewn materion y byddai'n well iddynt gael sylw ar lefel genedlaethol neu leol.

Proses benderfynu gyflymach a mwy effeithlon

Mae Cytuniad Lisbon yn symleiddio gweithdrefnau penderfynu'r Undeb Ewropeaidd.

Yng Nghyngor y Gweinidogion, bydd **pleidleisio drwy fwyafrif** amodol, yn lle penderfyniadau unfrydol, yn cael ei ymestyn. Bydd hyn yn helpu i wneud gweithredu'n gyflymach ac yn fwy effeithlon.

Mae pleidleisio drwy fwyafrif amodol yn golygu, o 2014 ymlaen, y bydd ar benderfyniadau Cyngor y Gweinidogion angen cefnogaeth 55% o'r Aelod-wladwriaethau, yn cynrychioli o leiaf 65% o boblogaeth Ewrop. Mae'r system hon yn rhoi dilysrwydd dwbl i benderfyniadau.

Bydd rheolau caeth yn berthnasol i unrhyw gynigion i newid i bleidleisio drwy fwyafrif mewn meysydd polisi newydd. Rhaid i bob Aelod-wladwriaeth gytuno ag unrhyw newid o'r fath a bydd gan y seneddau cenedlaethol hawl i roi feto.

Ond bydd angen pleidlais unfrydol o hyd mewn meysydd polisi pwysig megis trethiant ac amddiffyn.

Moderneiddio sefydliadau'r UE

Un o nodau allweddol Cytuniad Lisbon yw moderneiddio'r sefydliadau sy'n rhedeg busnes yr UE a'u gwneud yn fwy democrataidd.

Bydd swydd newydd, sef **Uchel Gynrychiolydd dros Faterion Tramor a Pholisi Diogelwch / Is-lywydd y Comisiwn,** yn cael ei chreu er mwyn hyrwyddo gweithredoedd yr UE ar y llwyfan rhyngwladol a gallu amddiffyn ei fuddiannau a'i werthoedd yn well dramor.

I hybu ei waith yn barhaus ac yn gyson, bydd y Cyngor Ewropeaidd yn ethol **Llywydd** i'r **Cyngor Ewropeaidd** am 5 mlynedd ar y mwyaf. Bydd hyn yn gwneud gweithredoedd yr UE yn fwy gweladwy a chyson.

Bydd Llywydd y Comisiwn yn cael ei "ethol" gan Senedd Ewrop, ar gynnig gan y Cyngor Ewropeaidd.

Mae Cytuniad Lisbon yn ailddatgan ac yn diweddaru llawer o'r darpariaethau economaidd a gafwyd yng nghytuniadau cynharach yr UE. Mae hefyd yn ychwanegu nifer o feysydd newydd pwysig. Caiff y rhain eu crybwyll yn y pwyntiau canlynol.

Polisi economaidd

Mae'r Cytuniad yn cadarnhau'r ymrwymiad i sicrhau Undeb Economaidd ac Ariannol gyda'r ewro'n arian yr UE.

Erbyn hyn yr ewro yw arian 16 o Aelod-wladwriaethau.

Undeb Economaidd ac Ariannol yw un o amcanion craidd yr UE. Hon yw'r elfen hanfodol i sicrhau y bydd Ewrop yn gweld ffyniant a swyddi'n dychwelyd. Mae'r Undeb Ewropeaidd a'r Aelod-wladwriaethau gyda'i gilydd wedi addo €200 biliwn o arian i symbylu economi'r UE yn yr argyfwng ariannol presennol.

Mae'r Cytuniad yn ffurfioli sefyllfa Banc Canolog Ewrop trwy ei wneud yn un o sefydliadau'r UE.

Yr Undeb Ewropeaidd yn y Byd

Mae'r UE yn addo hyrwyddo gwerthoedd yr UE yn y byd trwy gyfrannu at:

- heddwch a diogelwch;
- datblygu'r Ddaear yn gynaliadwy;
- cydlyniad a pharch at ei gilydd ymysg pobloedd;
- masnach rydd a theg;
- dileu tlodi;
- gwarchod hawliau dynol;
- parchu a datblygu cyfraith ryngwladol fel y'i diffinnir, yn arbennig, yn Siarter y Cenhedloedd Unedig.

Yr UE yw grym masnachol cryfaf y byd a'r prif roddwr cymorth i'r byd datblygol.

Bydd creu swydd Uchel Gynrychiolydd dros Faterion Tramor a Pholisi Diogelwch / Is-lywydd y Comisiwn, fel y nodwyd uchod, yn rhoi mwy o gysondeb i weithredoedd allanol yr UE ac yn galluogi'r Undeb Ewropeaidd i siarad ag un llais dramor. Bydd deiliad y swydd yn cael ei gynorthwyo gan Wasanaeth Gweithredoedd Allanol pwrpasol.

Diogelwch ac amddiffyn

Mae Cytuniad Lisbon yn nodi'n gliriach beth yw rôl yr UE ym maes polisi tramor a diogelwch cyffredin. Bydd angen cymeradwyaeth unfrydol y 27 o Aelod-wladwriaethau o hyd ar gyfer penderfyniadau ar faterion yn ymwneud ag amddiffyn.

Mae'r gwaith mae'r UE wedi'i wneud y tu allan i'w diriogaeth ei hun wedi bod at ddibenion cadw'r heddwch, atal gwrthdaro a chryfhau diogelwch rhyngwladol yng nghyd-destun Siarter y Cenhedloedd Unedig.

Mae'r Cytuniad yn ehangu rôl yr UE i gynnwys gweithredoedd diarfogi, cyngor a chymorth milwrol, a helpu i adfer sefydlogrwydd ar ôl gwrthdaro.

Mae hefyd yn creu'r posibilrwydd o gydweithredu cryfach rhwng Aelod-wladwriaethau sy'n dymuno cydweithio'n agosach ym maes amddiffyn.

Mae'r Cytuniad yn rhagamodi y bydd Aelod-wladwriaethau'n darparu i'r UE y gallu sifil a milwrol y mae ei angen i weithredu'r Polisi Diogelwch ac Amddiffyn Cyffredin ac yn nodi rôl yr Asiantaeth Amddiffyn Ewropeaidd.

Mae'r Cytuniad yn cyflwyno cymal cydlyniad (gwirfoddol) pan fo Aelod-wladwriaeth yn dioddef ymosodiad gan derfysgwyr neu drychineb naturiol neu o waith dyn.

Cyfiawnder a throseddu

Ceir darpariaethau newydd pwysig yng Nghytuniad Lisbon sy'n cryfhau gallu'r UE i frwydro yn erbyn troseddu trawsffiniol rhyngwladol, mewnfudo anghyfreithlon, masnachu mewn pobl, arfau a chyffuriau.

Mae'r symleiddio a gynigir yng Nghytuniad Lisbon yn dod â mwy o dryloywder i'r maes hwn. Bydd rôl Senedd Ewrop a'r Llys Cyfiawnder yn cael ei chryfhau a bydd y broses benderfynu'n cael ei chyflymu gan fwy o bleidleisio drwy fwyafrif amodol.

Dylai'r darpariaethau newydd, ymysg eraill, alluogi'r Undeb a'r Aelod-wladwriaethau i sicrhau yr amddiffynnir buddiannau ariannol yr Undeb yn fwy effeithiol ac y gellir brwydro'n well yn erbyn troseddu trawsffiniol.

Mae'r darpariaethau newydd hyn yn parchu gwahanol systemau a thraddodiadau cyfreithiol Aelod-wladwriaethau. Maent yn rhagweld, er enghraifft, "brêc argyfwng" sy'n galluogi Aelod-wladwriaeth i beidio â chymryd rhan mewn mesur newydd os yw'n barnu y byddai hyn yn effeithio ar agweddau sylfaenol ar ei system cyfiawnder troseddol.

Oherwydd eu system cyfraith gyffredin a chan nad ydynt yn rhan o gynllun Schengen ar reoli ffiniau, bydd gan Iwerddon a'r Deyrnas Unedig drefniant arbennig fydd yn caniatáu iddynt benderfynu ar sail achosion unigol a fyddant yn cymryd rhan mewn deddfwriaeth yn y maes hwn.

Polisi cymdeithasol

Mae Cytuniad Lisbon yn rhoi mwy o bwyslais byth ar amcanion cymdeithasol yr UE. Mae'n rhagamodi y bydd yr UE, yn ei holl bolisïau a gweithredoedd, yn cymryd i ystyriaeth hyrwyddo lefel uchel o gyflogaeth.

Cydnabyddir rôl allweddol gwasanaethau economaidd megis trafnidiaeth gyhoeddus, telathrebu, gwasanaethau post, a chyflenwad nwy a thrydan.

Cyfyngedig yw rôl yr UE yn y meysydd hyn. Mae gan yr Aelod-wladwriaethau lawer o ryddid i weithredu ym maes cyflenwi, gweithredu a threfnu gwasanaethau er mwyn ymateb yn effeithiol i anghenion yn eu gwledydd.

Rhaid i'r UE beidio â gweithredu mewn unrhyw fodd a fyddai'n lleihau ar rôl yr Aelod-wladwriaethau mewn darparu gwasanaethau o ddiddordeb cyffredinol megis iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, heddluoedd a lluoedd diogelwch ac ysgolion gwladol.

Mae cyflogau, hawl i ymuno â mudiadau a'r rheolau ar streicio'n dal i fod yn faterion i'r Aelod-wladwriaethau.

Meysydd cydweithredu newydd

Mae gan y Cytuniad ddarpariaethau pwysig mewn nifer o feysydd polisi newydd sy'n atgyfnerthu gallu'r UE i frwydro yn erbyn troseddu trawsffiniol rhyngwladol, mewnfudo anghyfreithlon, masnachu mewn menywod a phlant, cyffuriau ac arfau.

Mae dau faes arall yn arbennig o berthnasol yn y byd sydd ohoni:

Y newid yn yr hinsawdd: Mae'r Cytuniad yn rhoi blaenoriaeth i amcan yr UE o hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn Ewrop, ar sail lefel uchel o ddiogelu a gwella'r amgylchedd.

Mae'r Cytuniad yn addo hyrwyddo, ar lefel ryngwladol, fesurau i fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol rhanbarthol a byd-eang, yn enwedig y newid yn yr hinsawdd.

Bydd cryfhau rôl yr UE ar y newid yn yr hinsawdd yn golygu y bydd Ewrop yn parhau i gymryd yr awenau wrth frwydro yn erbyn cynhesu byd-eang.

Ynni: Mae gan y Cytuniad ddarpariaethau newydd sy'n sicrhau bod y farchnad ynni'n gweithredu'n dda, yn arbennig o ran cyflenwadau ynni, ac y sicrheir effeithlonrwydd ac arbedion ynni, yn ogystal â datblygu ffynonellau ynni newydd ac adnewyddadwy.

I'r holl Aelod-wladwriaethau, mae diogelu ffynonellau ynni'n her allweddol ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Cytuniad yn cadarnhau ymrwymiad yr UE i bolisi Ewropeaidd unedig ar ynni cynaliadwy.

Mae'r Cytuniad hefyd yn darparu sylfaen newydd ar gyfer cydweithredu rhwng Aelod-wladwriaethau ym meysydd chwaraeon, cymorth dyngarol, amddiffyn sifil, twristiaeth ac ymchwil ofod.



Hawliau dynol

Mae Cytuniad Lisbon yn cydnabod yr hawliau, rhyddidau ac egwyddorion a nodir yn y Siarter Hawliau Sylfaenol ac yn gwneud y Siarter yn gyfreithiol rwymedigol.

Llofnododd yr Aelod-wladwriaethau'r Siarter yn 2000. Nawr mae'n dod yn gyfreithiol rwymedigol.

Mae hyn yn golygu, pan fo'r UE yn cynnig a gweithredu cyfreithiau, mae'n rhaid iddo barchu'r hawliau a nodir yn y Siarter – a rhaid i'r Aelod-wladwriaethau wneud hynny hefyd wrth weithredu deddfwriaeth yr UE.

Mae'r hawliau y dylai pawb feddu arnynt yn cynnwys diogelu data personol, yr hawl i loches, cydraddoldeb yng ngolwg y gyfraith a pheidio â dioddef camwahaniaethu, cydraddoldeb rhwng dynion a menywod, hawliau plant a hen bobl, a hawliau cymdeithasol pwysig megis amddiffyniad rhag diswyddo annheg a'r gallu i gael nawdd cymdeithasol a chymorth cymdeithasol.

Bydd y Cytuniad hefyd yn caniatáu i'r UE gytuno i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Y Confensiwn, a Llys Hawliau Dynol Ewrop sy'n ei oruchwylio, yw sylfeini amddiffyn hawliau dynol yn Ewrop.

I GAEL GWYBOD MWY

Mae'n anochel bod Cytuniad Lisbon yn ddogfen hirfaith – dros 300 o dudalennau yn ei ffurf wedi'i chydgrynhoi, gan gynnwys atodlenni a phrotocolau. Mae'n cynnwys llawer o ddarpariaethau o Gytuniadau cynharach yr UE, wedi'u diwygio a'u diweddaru.

Mae'r Arweiniad hwn yn rhoi pwyslais arbennig ar yr elfennau newydd yng Nghytuniad Lisbon. Isod mae mwy o wybodaeth am y newidiadau allweddol.

Gallwch lawrlwytho dogfen lawn Cytuniad Lisbon yn Saesneg, fersiynau Saesneg wedi'u cydgrynhoi o'r Cytuniadau fel y'u diwygiwyd gan Gytuniad Lisbon, a chael gwybod mwy amdano ar **europa.eu/lisbon_treaty/full_text/index_en.htm**

Y llwybr i Lisbon

Cytunwyd ar Gytuniad Lisbon ar ôl 6 blynedd o drafod rhwng yr Aelod-wladwriaethau ynglŷn â pha ddiwygiadau yr oedd eu hangen er mwyn wynebu heriau'r 21ain ganrif.

1950

1960

1952: Cytuniad Paris yn sefydlu Cymuned Glo a Dur Ewrop

1957: Cytuniadau Rhufain yn sefydlu'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd ac Euratom

1986: Act Ewropeaidd Gyfun

1970

1992: Cytuniad Maastricht

1997: Cytuniad Amsterdam

2001: Cytuniad Nice

29 Hydref 2004: Cytuniad yn sefydlu Cyfansoddiad i Ewrop yn cael ei lofnodi gan yr Aelod-wladwriaethau yn Rhufain

Mai - Mehefin 2005: Ffrainc a'r Iseldiroedd yn gwrthod y Cytuniad trwy refferendwm

1980

13 Rhagfyr 2007: Llofnodi Cytuniad Lisbon gan y 27 o Aelod-wladwriaethau

2007-Mai 2009: Cytuniad Lisbon yn cael cymeradwyaeth seneddol mewn 26 o'r 27 o Aelod-wladwriaethau

12 Mehefin 2008: Refferendwm yn Iwerddon yn methu â sicrhau mwyafrif o blaid ei gadarnhau

1990

19 Mehefin 2009: Cadarnhaodd y Cyngor Ewropeaidd y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn parhau i gynnwys un gwladolyn o bob Aelod-wladwriaeth. Cytunodd y Penaethiaid Gwladwriaethau neu Lywodraethau ar warantau cyfreithiol rwymedigol mewn perthynas â meysydd penodol a nodwyd gan awdurdodau Iwerddon mewn perthynas â threthiant, yr hawl i fyw, addysg a'r teulu a pholisi traddodiadol Iwerddon o niwtraliaeth filwrol, y gwarantau hyn i gael eu cynnwys ar ffurf Protocol yng Nghytuniadau'r UE ar ôl i Gytuniad Lisbon ddod i rym. Mae Datganiad Difrifddwys ar bwysigrwydd hawliau gweithwyr a gwasanaethau cyhoeddus hefyd yn cael ei fabwysiadu.

2000

2 Hydref 2009: Ail refferendwm yn Iwerddon.

2010

Mwy am y newidiadau sefydliadol

Sefydliadau a chyrff yr Undeb Ewropeaidd

Dyma brif sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd:
- Senedd Ewrop
- Y Cyngor Ewropeaidd
- Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (Cyngor y Gweinidogion)
- Y Comisiwn Ewropeaidd
- Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd
- Banc Canolog Ewrop
- Y Llys Archwilwyr.

Hefyd mae yna gyrff eraill:
- Pwyllgor y Rhanbarthau
- Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop
- Banc Buddsoddi Ewrop.

Senedd Ewrop

Senedd Ewrop yw sefydliad yr UE yr etholir aelodau iddi'n uniongyrchol ac sy'n cynrychioli dinasyddion yr Aelod-wladwriaethau.

Mae'r Cytuniad yn cynyddu nifer y meysydd lle bydd Senedd Ewrop yn rhannu'r gwaith o ddeddfu gyda Chyngor y Gweinidogion ac mae'n cryfhau ei phwerau cyllidebol.

Cydbenderfynu yw'r enw ar rannu pŵer rhwng y Senedd a Chyngor y Gweinidogion fel hyn.

Cydbenderfynu fydd y 'weithdrefn ddeddfwriaethol arferol'. Bydd yn cael ei ehangu i feysydd polisi newydd megis rhyddid, diogelwch a chyfiawnder.

Bydd hyn yn atgyfnerthu pwerau deddfwriaethol Senedd Ewrop.

Bydd y Cytuniad hefyd yn rhoi rôl fwy i Senedd Ewrop mewn cymeradwyo cyllideb yr UE.

Y Cyngor Ewropeaidd

Mae'r Cyngor Ewropeaidd yn cynnwys cynrychiolwyr gwleidyddol etholedig uchaf yr Aelod-wladwriaethau – Prif Weinidogion ac Arlywyddion sydd â phwerau gweithredol.

Y Cyngor sy'n rhoi i'r UE ei gyfeiriad gwleidyddol ac sy'n pennu ei flaenoriaethau.

O dan Gytuniad Lisbon mae'r Cyngor Ewropeaidd yn dod yn un o sefydliadau llawn yr UE ac mae ei rôl yn cael ei diffinio'n glir.

Mae swydd newydd, sef Llywydd y Cyngor Ewropeaidd, yn cael ei chreu.

Bydd Llywydd y Cyngor Ewropeaidd yn cael ei ethol gan aelodau'r Cyngor Ewropeaidd a gall wasanaethu am 5 mlynedd ar y mwyaf.

Bydd yn cadeirio cyfarfodydd y Cyngor, yn gwthio ei waith yn ei flaen yn barhaus, ac yn cynrychioli'r UE yn rhyngwladol ar y lefel uchaf.

Mae hyn yn nodi newid o'r system bresennol lle mae Aelod-wladwriaethau, gan ddal Llywyddiaeth yr UE am chwe mis, hefyd yn cadeirio'r Cyngor Ewropeaidd.

Bydd Llywydd newydd y Cyngor Ewropeaidd yn gwneud gweithredoedd yr UE yn fwy gweladwy a chyson.

Y Cyngor

Enw arall ar Gyngor yr Undeb Ewropeaidd yw Cyngor y Gweinidogion. Mae'n cynnwys 27 o weinidogion llywodraethau, sy'n cynrychioli pob un o'r Aelod-wladwriaethau.

Mae'n gorff penderfynu allweddol sy'n cydgysylltu polisïau economaidd yr UE ac yn chwarae rôl ganolog ym maes polisi tramor a diogelwch.

Mae'n rhannu pwerau deddfu a chyllidebol gyda Senedd Ewrop.

Bydd pleidleisio drwy fwyafrif, yn hytrach na phenderfyniadau unfrydol, yn dod yn fwy cyffredin.

Bydd system a elwir 'mwyafrif dwbl' yn cael ei chyflwyno o 2014 ymlaen: bydd ar benderfyniadau'r Cyngor angen cefnogaeth 55% o'r Aelod-wladwriaethau, yn cynrychioli o leiaf 65% o boblogaeth Ewrop. Mae'r system hon yn rhoi dilysrwydd dwbl i benderfyniadau.

Datblygiad newydd o dan y Cytuniad yw y bydd Cyngor y Gweinidogion Tramor yn cael ei gadeirio gan Uchel Gynrychiolydd yr Undeb dros Faterion Tramor a Pholisi Diogelwch / Is-lywydd y Comisiwn.

Mewn meysydd eraill megis amaethyddiaeth, cyllid ac ynni, bydd y Cyngor yn parhau i gael ei gadeirio gan y Gweinidog o'r wlad sy'n dal Llywyddiaeth yr UE, sy'n newid ar gylchdro bob chwe mis.

Bydd hyn yn gwneud system Llywyddiaeth yr UE yn fwy cydlynol ac effeithiol.

Uchel Gynrychiolydd yr Undeb dros Faterion Tramor a Pholisi Diogelwch / Is-lywydd y Comisiwn

Bydd swydd newydd yn arwain polisi tramor a diogelwch cyffredin a pholisi amddiffyn cyffredin yr UE yn cael ei chreu o dan Gytuniad Lisbon. Mae penodi Uchel Gynrychiolydd yr Undeb dros Faterion Tramor a Pholisi Diogelwch sydd ar yr un pryd yn Is-lywydd y Comisiwn yn gam newydd o bwys. Mae'n cyfuno dwy swydd sy'n bodoli eisoes: yr Uchel Gynrychiolydd dros y Polisi Tramor a Diogelwch Cyffredin a'r Comisiynydd Cysylltiadau Allanol.

Bydd yn cael ei benodi gan y Cyngor Ewropeaidd ac yn cadeirio Cyngor y Gweinidogion Tramor, ac ar yr un pryd bydd yn Is-lywydd y Comisiwn Ewropeaidd. Bydd yn gwneud cynigion, yn gweithredu polisi tramor ar ran y Cyngor, ac yn cynrychioli safbwyntiau'r Undeb yn rhyngwladol.

Mae hyn wedi'i fwriadu i helpu'r UE i allu amddiffyn ei fuddiannau a'i werthoedd yn well ar y llwyfan rhyngwladol, a mynegi ei hun ag un llais.

Y Comisiwn Ewropeaidd

Bwriedir i'r Comisiwn Ewropeaidd gynrychioli buddiannau'r UE cyfan yn annibynnol.

Mae'r Comisiwn yn atebol i Senedd Ewrop.

Hwn yw'r unig un o sefydliadau'r UE sydd â'r pŵer cyffredinol i gychwyn cynigion ar gyfer deddfwriaeth.

Mae'r Comisiwn hefyd yn gorfodi polisïau'r Undeb, yn sicrhau y gweithredir y gyllideb, yn rheoli rhaglenni'r UE, yn cynrychioli'r UE mewn trafodaethau rhyngwladol ac yn sicrhau bod y Cytuniadau'n cael eu cymhwyso'n briodol.

Yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ym mis Rhagfyr 2008, cytunodd y Penaethiaid Gwladwriaethau a Llywodraethau y byddai'r Comisiwn yn dal i gynnwys un gwladolyn o bob Aelod-wladwriaeth.

Pwy sy'n gwneud beth

Mae Cytuniad Lisbon yn gwneud yn glir:

- pa bwerau sy'n eiddo i'r UE,
- pa bwerau sy'n eiddo i'r Aelod-wladwriaethau,
- pa bwerau sy'n cael eu rhannu.

Mae'r Cytuniad yn nodi'r **terfynau ar bwerau'r UE** yn gliriach nag o'r blaen.

Un rheol sylfaenol yw mai dim ond y pwerau hynny sydd wedi cael eu rhoi iddo gan yr Aelod-wladwriaethau y bydd yr UE yn gallu eu harfer. Mae'n rhaid iddo barchu'r ffaith bod pob pŵer arall yn aros gyda'r Aelod-wladwriaethau.

- Yr UE sydd â chyfrifoldeb llwyr am feysydd megis rheolau cystadleuaeth, polisi ariannol ardal yr Ewro a'r polisi masnachol cyffredin.
- Yr Aelod-wladwriaethau sydd â'r prif gyfrifoldeb mewn meysydd megis iechyd, addysg a diwydiant.
- Mae'r UE a'r Aelod-wladwriaethau'n rhannu cymhwysedd mewn meysydd megis y farchnad fewnol, amaethyddiaeth, trafnidiaeth ac ynni.

Darpariaethau eraill

Mae'r Cytuniad yn cadarnhau **parch yr UE at gydraddoldeb yr Aelod-wladwriaethau** a'u hunaniaethau cenedlaethol, gan gynnwys ymreolaeth leol a rhanbarthol. Mae'n addo gwarchod diwylliannau ac ieithoedd amrywiol Ewrop.

Am y tro cyntaf, mae yna ddarpariaeth i **Aelod-wladwriaeth dynnu'n ôl o'r UE** os yw'n dymuno gwneud ac mae'n nodi'r trefniadau a fyddai'n berthnasol pe bai hynny'n digwydd.

Pwerau newydd i seneddau cenedlaethol

Am y tro cyntaf, bydd seneddau cenedlaethol yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r broses benderfynu Ewropeaidd.

O dan Gytuniad Lisbon, bydd yn rhaid i bob cyfraith arfaethedig gan yr UE gael ei hanfon at y seneddau cenedlaethol.

Bydd yna system rybuddio cynnar a bydd gan y seneddau cenedlaethol wyth wythnos i ddadlau'r achos os ydynt yn teimlo nad yw'n briodol i'r UE weithredu ar gynnig.

Os yw digon o seneddau cenedlaethol yn gwrthwynebu, gellir diwygio'r cynnig neu ei dynnu'n ôl.

Mae'r system rybuddio cynnar hon yn rhoi rôl bwysig i seneddau cenedlaethol wrth sicrhau nad yw'r UE yn mynd y tu hwnt i'w awdurdod trwy ymyrryd mewn materion y byddai'n well iddynt gael sylw ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol.

Rhai termau technegol

Sylfaen gyfreithiol

Mae Cytuniad Lisbon yn diwygio'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd a'r Cytuniad yn sefydlu'r Gymuned Ewropeaidd. Hwn yw'r diweddaraf mewn cyfres o gytuniadau sy'n diweddaru a chydgrynhoi sylfaen gyfreithiol yr UE.

Rhoddir un bersonoliaeth gyfreithiol i'r UE o dan Gytuniad Lisbon.

Ar hyn o bryd mae gan y Gymuned Ewropeaidd a'r Undeb Ewropeaidd statudau gwahanol ac nid ydynt yn gweithredu'r un rheolau penderfynu. Bydd Cytuniad Lisbon yn rhoi terfyn ar y system ddeuol hon a bydd gan yr Undeb Ewropeaidd ei bersonoliaeth gyfreithiol ei hun.

Bydd y newid hwn yn gwella gallu'r UE i weithredu, yn enwedig ym maes materion allanol. Bydd Cytuniad Lisbon yn caniatáu i'r UE weithredu mewn ffordd fwy effeithiol, cydlynol a chredadwy yn ei gysylltiadau â gweddill y byd.

Pleidleisio drwy fwyafrif amodol, mwyafrif dwbl

Pleidleisio drwy fwyafrif amodol yw'r ffordd o benderfynu a ddefnyddir ar gyfer llawer o benderfyniadau Cyngor y Gweinidogion. O dan y Cytuniad, mae'n cael ei ehangu i lawer o feysydd newydd ac mae'r ffordd y mae'n gweithio'n cael ei hailddiffinio. O 2014 ymlaen, bydd ar benderfyniadau'r Cyngor angen cefnogaeth 55% o'r Aelod-wladwriaethau, yn cynrychioli o leiaf 65% o boblogaeth Ewrop. "Y mwyafrif dwbl" yw'r enw ar hyn. Bydd angen o leiaf pedair gwlad i ffurfio lleiafrif blocio. Mae'r system hon yn rhoi gwledydd â phoblogaethau llai mewn sefyllfa decach mewn perthynas â'r Aelod-wladwriaethau mwy.

Mewn rhai meysydd, bydd ar benderfyniadau angen cymeradwyaeth unfrydol o hyd. Mae'r rhain yn cynnwys trethiant ac amddiffyn.



Cydweithredu agosach

Gan gydnabod y ffaith bod yr Undeb wedi tyfu mor fawr, mae'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd (fel y'i diwygiwyd gan Gytuniad Amsterdam a Chytuniad Lisbon) yn nodi rheolau ar gyfer sefyllfaoedd lle bo rhai Aelod-wladwriaethau yn dymuno bwrw ymlaen â chydweithredu mewn maes penodol. 'Cydweithredu agosach' yw'r enw ar hyn.

Mae cydweithredu agosach yn golygu y gall grŵp o wledydd weithredu gyda'i gilydd heb i bob un o'r 27 gymryd rhan o angenrheidrwydd. Mae'n caniatáu i Aelod-wladwriaethau aros y tu allan os nad ydynt eisiau ymuno, heb atal Aelod-wladwriaethau eraill rhag gweithredu gyda'i gilydd.

Sybsidiaredd, cymesuredd

Rhaid i benderfyniadau'r UE gael eu gwneud mor agos at y dinasyddion ag sy'n bosibl. Ar wahân i'r meysydd hynny sy'n dod o dan ei gymhwysedd unigryw, nid yw'n gweithredu oni fyddai hyn yn fwy effeithiol na gweithredu ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol. Sybsidiaredd yw'r enw ar yr egwyddor hon ac mae'n cael ei hailddatgan yng Nghytuniad Lisbon.

Mae'r egwyddor hon yn cael ei chydategu gan egwyddor cymesuredd. O dan hon, rhaid i'r UE gyfyngu ei weithredoedd i'r hyn y mae ei angen i gyflawni'r amcanion a nodir yng Nghytuniad Lisbon.

Gweithdrefn cydbenderfynu ('gweithdrefn ddeddfwriaethol arferol')

Cydbenderfynu yw'r term ar gyfer pŵer Senedd Ewrop i ddeddfu ar y cyd ar dir gwastad gyda Chyngor y Gweinidogion. Mae Cytuniad Lisbon yn golygu y defnyddir cydbenderfynu'n gyffredinol. Trwy Gytuniad Lisbon, y weithdrefn lle mae Senedd Ewrop yn cydbenderfynu gyda'r Cyngor fydd y 'weithdrefn ddeddfwriaethol arferol'.

Mae hyn yn golygu y bydd proses benderfynu'r Undeb Ewropeaidd wedi'i seilio ar ddilysrwydd dwbl y bobl (fel y'u cynrychiolir gan eu ASEau yn Senedd Ewrop) a'r Aelod-wladwriaethau (fel y'u cynrychiolir gan y Gweinidogion yn y Cyngor).



Gwybodaeth arall am yr Undeb Ewropeaidd

EWCH AR LEIN
Mae gwybodaeth yn holl ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar gael ar y Rhyngrwyd. Gallwch gael mynediad at y wybodaeth hon trwy weinyddwr Europa: **europa.eu.int**

YMWELD Â NI
Mae cannoedd o ganolfannau gwybodaeth UE lleol ledled Ewrop. Gallwch ddod o hyd i gyfeiriad y ganolfan sydd agosach atoch chi ar wefan hon: **europa.eu.int/comm/relays/index_en.htm**

GALWCH NEU YSGRIFENNWCH ATOM NI
Mae EUROPE DIRECT yn wasanaeth sy'n ateb eich cwestiynau am yr Undeb Ewropeaidd. Gallwch chi gysylltu â'r gwasanaeth hwn drwy radffôn : **00 800 6 7 8 9 10 11** (neu drwy ffôn talu o'r tu allan i'r UE: **+ 32-2-299-96-96** neu drwy e-bost drwy **europa.eu.int/europedirect**

DARLLENWCH AM EWROP
Mae cyhoeddiadau am yr UE o fewn cyrraedd clic llygoden ar wefan Siop Lyfrau'r UE **bookshop.europa.eu**

Gallwch gael gwybodaeth a llyfrynnau am yr Undeb Ewropeaidd hefyd o:

CYNRYCHIOLAETHAU'R COMISIWN EWROPEAIDD

Cynrychiolaeth yn Iwerddon
18 Dawson Street
Dublin 2
Ffôn: (353-1)634 11 11
Ffacs: (353-1)634 11 12
Rhyngrwyd: www.euireland.ie
E-bost: eu-ie-info-request@cec.eu.int

Cynrychiolaeth yn y Deyrnas Unedig
8 Storey's Gate
London
SW1P 3AT
Ffôn: (44-20) 79 73 19 92
Ffacs: (44-20) 79 73 19 00/10
Rhyngrwyd: www.cec.org.uk

Cynrychiolaeth yng Nghymru
2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd
CF10 4QQ
Ffôn: (44-29) 20 89 50 20
Ffacs: (44-29) 20 89 50 35
Rhyngrwyd: www.cec.org.uk

Cynrychiolaeth yn yr Alban
9 Alva Street
Edinburgh
EH2 4PH
Ffôn: (44-131) 225 20 58
Ffacs: (44-131) 226 41 05

Cynrychiolaeth yng Ngogledd Iwerddon
Windsor House
9/15 Bedford Street
Belfast
BT2 7EG
Ffôn: (44-28) 90 24 07 08
Ffacs: (44-28) 90 24 82 41
Rhyngrwyd: www.cec.org.uk

Gwasanaethau gwybodaeth yn yr Unol Daleithiau
2300 M Street, NW – 3rd Floor
Washington DC 20037
Ffôn: (202) 862 95 00
Ffacs: (202) 429 17 66
Rhyngrwyd: www.eurunion.org

222 East 41st Street, 20th Floor
New York, NY 10017
Ffôn: (212) 371 38 04
Ffacs: 9212) 688 10 13
Rhyngrwyd: www.eurunion.org

SWYDDFEYDD SENEDD EWROP

Swyddfa Iwerddon
European Union House
43 Molesworth Street
Dublin 2
Ffôn: (353-1) 605 79 00
Ffacs: (353-1) 605 79 99
Ryngrwyd: www.europarl.ie
E-bost: epdublin@europarl.eu.int

Swyddfa'r Deyrnas Unedig
2 Queen Anne's Gate
London
SW1H 9AA
Ffôn: (44-20) 72 27 43 00
Ffacs: (44-20) 72 27 43 02
Ryngrwyd: www.europarl.org.uk
E-bost: eplondon@europarl.eu.int

Swyddfa'r Alban
The Tun
4 Jackson's Entry
Holyrood Road
Edinburgh
EH8 8PJ
Ffôn: (44-131) 557 78 66
Ffacs: (44-131) 557 49 77
Ryngrwyd: www.europarl.org.uk
E-bost: epedingurgh@europarl.eu.int

Mae cynrychiolaethau a swyddfeydd y Comisiwn Ewropeaidd a Senedd Ewrop yn holl wledydd yr Undeb Ewropeaidd. Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd gynrychiolwyr mewn rhannau eraill o'r byd hefyd.

EICH ARWEINIAD I GYTUNIAD LISBON

IK-32-09-187-CY-C

Ar ôl degawdau o ryfel a gostiodd filiynau o fywydau, nododd sefydlu'r UE ddechrau cyfnod newydd pan fo gwledydd Ewrop yn datrys eu problemau trwy siarad, nid ymladd.

Heddiw, mae aelodau o'r UE yn mwynhau toreth o fanteision. Fodd bynnag, cafodd y rheolau presennol eu cynllunio ar gyfer UE oedd yn llawer llai, ac UE nad oedd yn gorfod wynebu heriau byd-eang megis y newid yn yr hinsawdd, dirwasgiad byd-eang na throseddu trawsffiniol rhyngwladol. Mae gan yr UE y potensial, a'r ymroddiad, i fynd i'r afael â'r problemau hyn, ond ni all wneud hynny ond trwy wella'r ffordd y mae'n gweithio.



Dyma yw diben Cytuniad Lisbon. Mae'n gwneud yr UE yn fwy democrataidd, effeithlon a thryloyw. Mae'n rhoi i ddinasyddion a seneddau fwy o gyfraniad i'r hyn sy'n digwydd ar lefel Ewropeaidd, ac yn rhoi i Ewrop lais cliriach a chryfach yn y byd, ac ar yr un pryd yn amddiffyn buddion cenedlaethol.

Mae'r daflen hon yn esbonio beth mae Cytuniad Lisbon yn ei olygu i chi fel dinesydd.

Swyddfa Cyhoeddiadau

ISBN 978-92-79-14252-9